Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru·Love Ceredigion

| Eitem | Dyddiad | |
|---|---|---|
| 33.6 | 06.03.2023 | |
| Teitl | | Er |
| Adroddiad is-grŵp Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion | | *Gwybodaeth a Phenderfyniad* |
| Crynodeb o'r Materion | | |

Mae'r is-grŵp yn parhau i gwrdd yn chwarterol a chynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ym mis Ionawr 2023.

**Data Lefel Uchel**

Trafododd y grŵp adroddiad diweddar Archwilio Cymru – Amser am newid – Tlodi yng Nghymru. Mae Archwilio Cymru o'r farn bod eu dadansoddiad nhw yn dangos mai tlodi yw'r prif her sy'n wynebu pob haen o lywodraeth. Mae wyth argymhelliad wedi'u nodi yn yr adroddiad; y cyntaf yw y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r strategaeth Tlodi Plant bresennol.

Er bod dyletswydd statudol ar awdurdodau Cymru i gyflwyno strategaeth tlodi plant - ac mae hyn yn bwysig - cytunodd y grŵp fod dull gydol oes yn fuddiol oherwydd bod tlodi yn effeithio ar bob oed a phob gwasanaeth. Mae'r ffaith fod ein Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer 2023-28 wedi mabwysiadu dull gydol oes yn rhywbeth sy'n cael ei groesawu gan yr is-grŵp Tlodi.

Gwnaeth tîm Perfformiad ac Ymchwil y Cyngor gyflwyno'r dangosfyrddau data Tlodi. Mae'r flwyddyn i ddod yn edrych yn llwm, rhagwelir y bydd diweithdra'n codi ac mae costau byw yn uwch yma nag yn llawer i le arall yng Nghymru a'r DU. Mae 21,000 o daliadau 'costau byw' wedi'u gwneud gan y Cyngor ac mae Cyngor ar Bopeth yn ei chael hi'n anodd cwrdd â'r gofynion am eu gwasanaeth am gymorth gyda dyledion. Mae dyledion yn creu bygythiadau sylweddol o ran adfeddiannu, tlodi bwyd ac ati.

Rydym wedi gweld y bwlch cyflog cyfartalog yn lleihau rhwng Ceredigion a gweddill Cymru. Byddwn yn trafod hyn ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

Gwnaeth Juliet Morris rannu dolen i ddata sirol a grëwyd gan Gyngor ar Bopeth sy'n dangos sut mae gwahanol ardaloedd wedi cael eu heffeithio dros amser: How does the cost of living crisis differ between local areas? | Flourish

**Mannau Croeso Cynnes Ceredigion**

Mae 42 o fannau Croeso Cynnes ar fap Ceredigion a hynny ym mhob cwr o'r sir. Ym mis Ionawr 2023 roedd 1,941 o bobl o wahanol gyfeiriadau IP wedi ymweld â'r safle a chafwyd 7,565 o gliciau ar y map. Roedd yna gynnydd mawr o ran ymweliadau â'r map ar Noswyl Nadolig. Bydd gennym ystadegau ar ddefnyddio'r Mannau Croeso Cynnes erbyn diwedd

mis Mawrth ond mae'n ymddangos bod y mwyafrif o'r rhai sy'n defnyddio'r mannau yn gwneud hynny ar gyfer cwmnïaeth yn hytrach nag i gadw'n gynnes. Cytunwyd y byddai'n fuddiol parhau gyda 'Mannau Croeso', gan dynnu'r gair 'Cynnes' a chanolbwyntio ar unigrwydd ac unigedd. Cytunwyd hefyd y byddai'n fuddiol ehangu'r map i gynnwys banciau bwyd ac adnoddau eraill. Fodd bynnag, efallai na fydd hynny'n bosib oherwydd cyllid a llwyth gwaith ar hyn o bryd.

**Sesiwn rhannu gwybodaeth**

Rhannodd aelodau'r is-grŵp Tlodi y diweddaraf am y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf, cynllun Costau Byw (elfen yn ôl disgresiwn), Taliadau Tanwydd Amgen, cyflwyno Gofal Plant am Ddim, Cronfa Gofalwyr Ceredigion 2022 a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

**Trefniadau llywodraethu at y dyfodol**

Mae aelodaeth a Chylch Gorchwyl presennol y grŵp yma yn ymwneud â chyflawni Strategaeth Taclo Caledi 2020-23. Mae angen adolygu'r rhain oherwydd bydd yr is-grŵp yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Llesiant Lleol o fis Ebrill 2023 ymlaen.

Cytunwyd y bydd yr is-grŵp yn casglu ac yn lledaenu gwybodaeth ynghylch tlodi i lywio penderfyniadau ar lefel uchel ac i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau rheng flaen. Serch hynny, teimlai'r grŵp nad oedd hyn yn ddigon ac y dylai'r cylch gorchwyl adlewyrchu cyfrifoldebau deinamig sy'n seiliedig ar gamau gweithredu, yn ogystal â'r rôl o rannu gwybodaeth.

Nid yw aelodaeth bresennol y grŵp yn adlewyrchu aelodaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Er mwyn cyflawni'r newid systemig sydd ei angen i daclo a lleddfu tlodi yng Ngheredigion, mae teimlad bod angen i'r is-grŵp Tlodi ehangu i gynnwys swyddog sy'n gweithio ar dlodi neu gydraddoldeb o bob un o sefydliadau partner y BGC.

Mae gweithdy wedi ei drefnu ar gyfer canol mis Mawrth i drafod ymhellach gylch gorchwyl ac aelodaeth yr is-grŵp Tlodi. Bydd y gweithdy'n canolbwyntio ar amcanion Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 a'r ffyrdd y gall yr is-grŵp tlodi gefnogi'r gwaith gydag aelodaeth o'r newydd.

| |
|---|
| Goblygiadau Ariannol |
| Dim |
| Argymhellion |
| Bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi'r heriau anferthol rydym yn eu hwynebu o ran taclo a lleddfu tlodi yng Ngheredigion.<br><br>Bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cefnogi gwaith yr is-grŵp Tlodi at y dyfodol drwy enwebu swyddogion profiadol cymwys i gyfrannu at waith y grŵp. |
| Atodiadau |
| |
| Swyddog Adrodd |
| Cathryn Morgan |